**Beirniadaeth Rhyddiaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn**

Cystadleuaeth rhif 374

Rhyddiaith Bl.8 a 9 (D) **TECHNOLEG**

Beirniad: Haf Llewelyn

Diolch i'r chwe ymgeisydd, roedd yn brofiad braf cael darllen pob un o'r gweithiau dan y testun **Technoleg.** Testun gyda digon o bosibiliadau iddo a chafwyd chwe gwaith amrywiol o ran agwedd, ond tebyg iawn o ran cywirdeb a safon. Cafwyd ambell ddadl yn trafod manteision ac anfanteision technoleg, gyda'r awduron ifanc yn gweld gwerth technoleg wrth chwilio am wybodaeth, adloniant a chysylltu gyda ffrindiau. Ond hefyd yn gweld y gall technoleg godi'n fwgan pan mae gorddibyniaeth yn digwydd, a'r bygythiad o seibrfwlio yn cuddio yn y cysgodion.

Roedd yn brofiad braf iawn cael darllen gweithiau safonol, gyda'r iaith yn cael ei defnyddio'n rhwydd ym mhob un ymgais. Mae yma batrwm brawddeg da a naturiol gan bob un o'r awduron ifanc. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, mae'n gystadleuaeth agos a gallwn yn falch fod wedi gwobrwyo pob un ohonoch. Daliwch ati i gystadlu, ac ysgrifennu, mae dyfodol disglair o'ch blaenau chi i gyd. Diolch am gael darllen eich gwaith.

**Anya**

Trafodaeth sydd yma dros ac yn erbyn ein defnydd o dechnoleg. Mae yma osod dadleuon yn drefnus gan ddilyn y ddadl honno'n effeithiol. Gall Anya osod y gwaith yn drefnus mewn brawddegau a pharagraffau sy'n adeiladu ar y dadleuon.

Mae Anya yn ysgrifennu'n gywir ac mae yma ddefnydd gwych o eirfa e.e. cyfleus, anghwrtais a cythruddo.

**Lucy Lee**

Mae Lucy Lee yn hoff iawn o dechnoleg, ac mae'n rhestru manteision defnyddio technoleg i wylio ffilmiau, i wrando ar gerddoriaeth a chysylltu gyda'i ffrindiau. Mae'n ysgrifennu'n fywiog ac mae'n braf iawn clywed llais mor frwdfrydig. Ond mae hi hefyd yn gweld ochr mwy bygythiol technoleg, pan mae'n sôn am seibrfwlio.

Mae yma ysgrifennu cywir, geirfa eang ac idiomau diddorol.

**Zoe**

Trafodaeth ar fanteision ac anfanteision technoleg a'r gwahanol ddefnydd o dechnoleg sydd yma. Mae'r dadleuon dros ac yn erbyn wedi eu gosod yn glir a threfnus. Mae yma eirfa eang a difyr ac idiomau da.

Hoffais yn arbennig y rhan gyntaf, lle mae Zoe yn cyflwyno hi ei hun, mae yma ddisgrifiadau bywiog, mae pawb yn fusneslyd yn y bôn, felly mae cael rhan fach fel hyn yn cyflwyno ei hun yn ffordd dda o ddod a bywyd i'r gwaith.

**Feiya**

Mae rhywbeth yn newydd iawn yn y gwaith hwn, a hoffais y ffordd y mae Feiya yn ysgrifennu o'r dechrau un. Mae'n waith bywiog a difyr tu hwnt, gyda'r awdur yn gweld sut y gall technoleg newid i fod bron yn anghenfil byw sydd yn dal ei afael ynoch chi a gwrthod gafael. Mae'r holl ddyfeisiadau sydd gan yr awdur fel petaent am ei boenydio, pob un yn mynnu sylw, nes yn y diwedd mae'n penderfynu bod yn rhaid gwneud rhywbeth.

Hoffais yn arbennig yr ail-adrodd -

*Dw i'n caru technoleg. Dw i'n casáu technoleg. Dw i'n caru technoleg. Dw i'n casáu technoleg.*

Profiad y medr pob un ohonom uniaethu gydag o dw i'n siŵr. Ardderchog!

**Nia**

Hoffais deitl Nia - Dadwenwyno Digidol. Mae yma waith safonol iawn gyda chymaint i'w edmygu am yr awdur hwn. Mae yma ddywediadau penigamp trwy'r gwaith, mae'n cymharu ei ffôn fel rhywbeth *caethiwus* ac fel *ffrind sydd angen sylw*. Mae'r ffôn yn ei llaw yn troi'n rhywbeth a chanddo fywyd ei hun bron, a'r effaith ar yr awdur yn arswydus.

Mae'r awdur yn penderfynu bod angen cael seibiant oddi wrth y ffôn, ac yma eto y mae dywediadau gwirioneddol wych. Fel hyn mae'r awdur yn disgrifio'r cyfnod anodd cyntaf heb ei ffôn - *Roedd diflastod yn pwyso'n drwm yn fy mhocedi - fel petai'r byd o'm cwmpas wedi stopio.*

Yn hytrach na phwysau'r ffôn yn ei phoced, nawr mae pwysau tawelwch yno - ysgubol!

Gwaith aeddfed a llwyddiannus iawn.

**Izzy**

Dyma waith sy'n sôn am y ddau beiriannydd fu'n arbrofi gyda dulliau o anfon y negeseuon radio cyntaf. Caiff y stori ei dweud gan George Kemp, o'i safle ar Ynys Echni, ynghanol yr Hafren, ac mae'n disgrifio ei deimladau pan mae'n cael y neges

gyntaf honno gan ei gyfaill, Guglielmo Marconi. Mae'n hanes diddorol, a hoffais yr agwedd hanes sydd yn y gwaith hwn.

Eto, mae'r eirfa'n eang, a'r gwaith yn gywir a graenus.

**Canlyniad:**

**1 Nia**

**2 Feiya**

**3 Zoe**